Cynllun Grantiau Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Welsh Government's Wales and Africa Grant Scheme

Dyfarniadau Grant Cymru ac Affrica – 2024/25 Rownd 6

Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Gwlad Affricanaidd	Sir yng Nghymru	Cais am grant
Ymddiriedolaeth SaltPeter	Bydd y prosiect hwn yn darparu clinigau allgymorth torfol sy'n rhoi gofal uniongyrchol mewn ardaloedd difreintiedig o Soroti Uganda ac yna clinigau adolygu yng Nghanolfan Feddygol Bedyddwyr Soroti. Bydd yn manteisio i'r eithaf ar berthnasoedd blaenorol â'r gymuned, ac yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o glinigau blaenorol yn 2019/20 a 2023/24 gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.	Uganda	Sir Gaerfyrddin, Caerdydd, Sir Fynwy	£20,000.00
Cyllid Cymunedol Assadaqaat	Bydd y prosiect yn grymuso busnesau sy'n cael eu harwain gan fenywod gyda sgiliau digidol hollbwysig, sy'n hanfodol ar gyfer cynhwysiant economaidd a chydnerthedd yn Ghana. Byddai'r cyllid yn cynnwys darparu'r rhaglen hyfforddiant cynhwysiant digidol, marchnata digidol/cyfryngau cymdeithasol, denu ymgeiswyr, arddangos busnes, creu masnach deg, gorbenion a theithio i feithrin datblygiad economaidd cynhwysol a chynaliadwy.	Ghana	Ledled Cymru	£19,500.00

Ysgolion Solar Giakonda	Darparu pŵer solar ac adnoddau cyfrifiadurol y mae eu hangen yn fawr ar ysgol wledig yn Zambia, gan roi gwell mynediad at y cwricwlwm yn Zambia. Bydd y goleuadau'n gwella'r gallu i ddefnyddio'r ysgol ar gyfer clybiau ar ôl ysgol, gwaith ymchwil, paratoi gwersi a gwaith cartref. Bydd yr adnoddau dysgu a ddarperir yn annog y gymuned gyfan i gymryd rhan mewn llythrennedd ymhlith oedolion.	Zambia	Abertawe, Torfaen	£9,975.00
Elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (Cyswllt Masanga Bangor)	Mae darpariaeth anesthesia ar ei hôl hi o ran galluoedd llawfeddygol yn Masanga ac mae ein partneriaid wedi nodi meysydd i'w datblygu. Byddwn yn darparu addysg mewn anesthesia rhanbarthol. Byddwn hefyd yn cefnogi sefydlu Uned Dibyniaeth Fawr drwy ddarparu cyrsiau ar gyfer nyrsys a swyddogion iechyd cymunedol, o Masanga ac ysbyty cyfagos.	Sierra Leone	Conwy, Gwynedd, Ynys Môn	£13,459.00

Interburns	Bydd 32 o nyrsys o Malawi, Uganda, Sierra Leone, Tanzania, Pacistan a Yemen yn cael eu hyfforddi gan gyfadran wirfoddol arbenigol o Affrica, Asia ac Ewrop. Bydd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar droi gwybodaeth yn gamau gweithredu, gan arwain at brosiectau gwella ansawdd ymarferol ac aelodau newydd o'r gyfadran i adeiladu'r gronfa o hyfforddwyr nyrsio arbenigol.	Malawi, Sierra Leone, Tanzania, Uganda, Ghana	Caerdydd, Abertawe	£20,000.00
Ymddiriedolaeth Gymunedol Clwb Pêl Droed Wrecsam	Bydd Wrecsam a Kick4Life yn cyd-ddylunio ac yn cyflwyno cwricwlwm seiliedig ar bêl-droed ar gyfer plant a phobl ifanc difreintiedig yng Nghymru a Lesotho, gan ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy i gefnogi cyrhaeddiad academaidd a chyflogadwyedd. Bydd y prosiect hefyd yn galluogi cyfnewid gwybodaeth a syniadau rhwng y mudiadau, gan gryfhau cyd-ddealltwriaeth o ddatblygiad byd-eang.	Lesotho	Wrecsam	£20,000.00
ChallengeAid	Yng nghanol slymiau Nairobi, sef Kibira, Mathare, a Kawangware, bydd y prosiect trawsnewidiol hwn yn cael ei roi ar waith gyda hyd at 20 o ysgolion anffurfiol ChallengeAid. Gyda thua 1000 o bobl ifanc sy'n byw mewn slymiau, rhwng 8 ac 11 oed, yn ymestyn o ddosbarth 4 i 8, yn ganolbwynt	Kenya	Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion	£14,220.00

	iddo. Nod y cynllun yw mynd i'r afael â'r broblem amlwg o anllythrennedd.			
Love Zimbabwe	Cynyddu ymgysylltiad â phrosiectau diogelwch bwyd i ddiogelu cymunedau er mwyn gwella eu bywoliaeth a chynyddu sgiliau. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i blannu coed, addysgu/gweithredu permaddiwylliant sy'n dechrau ac yn graddio cynhyrchu cwningod a dofednod ar gyfer maeth ac incwm, dechrau meithrinfa lysiau a menter fach mewn becws, yn ogystal ag ennill/rhannu addysg ar gyfrifeg.	Zimbabwe	Sir Fynwy, Powys, Casnewydd, Caerdydd	£20,000.00
CAENDON	Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gynnal prosiect peilot amaeth-goedwigaeth yn Ghana. Bydd y prosiect hwn yn digwydd mewn dwy ardal – ardal tyfu coffi a glaswelltir safana. Bydd y cynllun peilot hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu'r cymunedau i ddatblygu a gwreiddio arferion amaeth-goedwigaeth a fydd nid yn unig o fudd i'r amgylchedd ond hefyd yn dod â mwy o refeniw i'r cymunedau hyn. Bydd cwblhau'r cynllun yn llwyddiannus yn creu'r cyfle i raddio dros ardal fawr.	Ghana	Conwy	£9,990.65